

## AMLINELLIAD CYFRAITH CYHOEDDUS

Gwybodaeth i rieni ynglŷn ag Achosion Llŷs

### Cyflwyniad

Mae Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn pryderu am ofal eich plentyn.

### Mae gweithiwr cymdeithasol eich plentyn yn gyfrifol am:

- Baratoi cynllun i gadw'ch plentyn yn ddiogel nawr ac yn y dyfodol
- Drefnu cyfarfod gyda chi a'ch cyfreithiwr i siarad am yr hyn sy'n ein poeni ynglŷn â'ch plentyn a sut yr ydych chi'n edrych ar ei ôl
- Gael hyd i'r hyn sydd rhaid newid er mwyn gwella pethau

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae eich gweithiwr cymdeithasol wedi trefnu cyfarfod gyda chi a'ch cyfreithiwr er mwyn:

- Esbonio pryderon y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd
- Cytuno a allant eich cefnogi i wneud newidiadau ac osgoi mynd i'r llys.
- Weithiau os yw'r Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn credu eich bod yn gallu newid efallai na fyddant yn mynd i'r llys.
- Cael hyd i unrhyw deulu a all helpu neu ofalu am eich plentyn os oes angen

### Beth sydd angen i chi wneud nesaf?

- Cysylltwch â chyfreithiwr – mae rhestr gyda'r llythyr.
- Dywedwch wrthym ni am unrhyw deulu a all helpu
- Dywedwch wrth eich gweithiwr cymdeithasol y byddwch yn dod i'r cyfarfod
- Dod i'r cyfarfod gyda'ch cyfreithiwr

### Beth fydd yn digwydd os na wnewch unrhyw beth?

Gall y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd fynd i'r llys. Gall hyn olygu efallai nad chi fydd yn edrych ar ôl eich plentyn.

### Pwy i gysylltu â nhw os nad ydych yn deall beth sy'n digwydd:

Dylech gysylltu â gweithiwr cymdeithasol eich plentyn yn syth. Os nad ydyn nhw ar gael rhaid i chi ofyn i gael siarad gyda'u rheolwr.

### Ein manylion cyswllt

Os nad ydych chi'n gwybod rhif ffôn eich gweithiwr cymdeithasol yna ffoniwch wasanaethau cwsmeriaid.

Ffoniwch: 01495 762200

A gofynnwch i gael siarad â Gweithiwr Cymdeithasol eich plentyn neu Reolwr y Tîm